

Teithiau Cerdded yn Sir Gaerfyrddin

Parc Dŵr y Llanelli



Hawdd/Cymedrol



GLAW neu HINDDA
mae'n werth dod yma

darganfod sirgar.com

-  **Oddeutu 2-3 awr**
-  **Taith Gerdded i'r Teulu**
-  **Taith Feic i'r Teulu**
-  **Yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn**
-  **Oddeutu 4.5 cilometr**

Cadwch lygad am...

Blodau gwyllt gan gynnwys tegeirianau ac amrywiaeth helaeth o adar y dŵr a'r môr megis yr elyrch ym Mharc Dŵr Sandy.

Wrth fynd ar hyd y llwybr, gallwch ddod o hyd i greigiau du sef y gwastraff o'r ffwrneisi dur. Edrychwch arnynt yn fanwl ac fe sylwch eu bod yn llawn swigod ers yr adeg yr oeddynt yn hylif y tu mewn i'r ffwrneisi chwyth.

Agorwyd Parc Arfordirol y Mileniwm ym mlwyddyn y Mileniwm ac adfywiodd ardal arfordirol Llanelli, a oedd hyd yn ddiweddar yn dirwedd ddiwydiannol lle'r oedd nifer o weithfeydd dur a thunplat.

Bellach mae'r tir yn ddymunol ac yn wyrdd. Efallai, yn ystod eich amser yma, y gallwch logi beic a beicio ar hyd yr arfordir 22 cilometr o hyd.

A484
I porth Tywyn, Pen-bre a Cydweli



Parc Dŵr y Sandy

Heneb



I Canol y Dre Llanelli

A484

HEOL PEN-BRE

LLANELLI

Bwyty y Sandpiper

A484

BAE CAERFYRDDIN

Traeth Llanelli

Canolfan Ddarganfod


Rheilffordd Llundain i Abergwaun

Doc y Gogledd

I Trostre a De Llanelli

B4304

SIR GAERFYRDDIN



1 Parciwch eich car ym maes parcio Parc Dŵr y Sandy. Mae'r daith yn eich tywys chi o amgylch y llyn ym Mharc Dŵr y Sandy. Roedd y llyn yn un o'r llynnoedd oeri oedd yn gysylltiedig â gwaith Dur Duport, sef un o'r melinau dur mwyaf, a mwyaf blaengar, yn y byd. Y Klondike oedd yr enw lleol arno gan fod y gwaith hwn yn Llanelli yn cyfateb i'r rhuthr am aur! Dilynwch y llwybr o amgylch y llyn ac yn ôl i'ch car.

2 Os ydych am gael taith gerdded hirach, beth am ddilyn y llwybr drwy goed y Mabinogion, sy'n cynnwys llwybr o gerfluniau, ymuno â Llwybr Arfordirol y Mileniwm ac yna ymlaen i'r warchodfa natur leol yn Noc y Gogledd. Dilynwch y llwybr hyd at ddiwedd y twyni tywod. Gellir gweld blodau gwyllt ac adar y môr yma. Gallwch ddychwelyd i'ch car ar hyd y llwybr y daethoch arno, ac efallai aros yn y Ganolfan Ddarganfod am gwpanaid o de a darn o deisen haeddiannol iawn!

 Ddim i raddfa



I gael gwybodaeth ynghylch gweithgareddau, digwyddiadau, atyniadau, llefydd i fynd iddynt a llety, ewch i www.darganfodsirgar.com ☎ 01267 231557

